

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Paul Weston

Nos Lun Mehefin 1af 2015 am 7.30 y.h.

Cofnodion

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gwynfor Roberts.
2. **Presennol:** Cyng. Alun Edwards, Gari Jones, Alun Owen, Edmund Rees, Paul Weston a Dilwyn Roberts
3. **Cod Ymddygiad:** Neb yn datgan diddordeb.
4. **Cofnodion mis Mai** cynigiwyd yn gywir gan Gari Jones gydag Edmund Rees yn eilio.
5. **System Cyfrifon/rheolau a'r Polisi Cydraddoldeb:**
Cafwyd yn ddigonol a'i derbyniwyd yn gyflawn.
Asesiad risg ariannol:
Derbyniwyd yn gyflawn.
Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn ein bod yn derbyn yr uchod.
6. **Materion y Codi o'r Cofnodion:-**
 - 6.1. Ni chafwyd amcan bris codi cysgodfa bysus hyd yma penderfynwyd gadael tan fis nesaf.
 - 6.2. Clawdd weiers wrth y toiledau – gan fod Steve Teale yn methu a bod yn bresennol cawn wybodaeth ganddo fis nesaf.
7. **Gohebiaeth:**
Dim
8. **Saith Maes Allweddol:**
 - 8.1. Asesiad Risg
 - 8.2. Rheolau Sefydlog
 - 8.3. Rheoliadau ariannol
 - 8.4. Rheolaethau Mewnol
 - 8.5. Polisi ymateb i Gwynion
 - 8.6. Y Gyllideb Flynyddol
 - 8.7. Còd YmddygiadAr gynigiad Alun Owen gyda Edmund Rees yn eilio a phawb yn gytûn mabwysiadwyd y saith maes uchod.
9. **Mantolen Ariannol:**
Cwblhawyd y fantolen a chytunwyd ei bod yn gyflawn gan bawb.
10. **Ffurflenni derbyn Swyddi**
Gan nad oedd y Cynghorwyr wedi ail lenwi ffurflen derbyn swydd ar ôl yr etholiad diwethaf cynigiodd Alun Owen gyda Edmund Rees yn eilio na fydd y clerck yn arwyddo'r ffurflenni gan nad oedd yn y swydd ar yr adeg honno.
11. **Gair gan y Cyng. Dilwyn Roberts**
Cafwyd gair gan y Cynghorydd a dywedodd ei bod yn disgwyl gweld y map newydd gan Leighton Andrews. Yna aeth ymlaen i ateb rhai o'r cwestiynau gan y Cynghorwyr.
12. **Unrhyw fater arall:**
 - 12.1. Cais gan gangen leol o Ferched y Wawr yn gofyn am gyfraniad tuag at gynnal y gangen. Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio a phawb yn gytûn anfon **£100.00** iddynt a thalwyd gyda siec rhif **100240**.
13. **Dyddiad y cyfarfod nesaf nos Lun Gorffennaf 6ed 2015 am 7.30 y.h.**
